Bwletin Rhieni Chweched YDH

Ionawr 2016
Rhif 1

BETH SYDD I'W WNEUD ERBYN Y PASG?

Bl 12

Trefnu lleoliad Profiad Gwaith

Gwirfoddoli i ehangu gorwelion

Bl. 13

UCAS - dewis cyntaf a'r yswiriant i'w bennu.

Prentisiaethau – cadw golwg ar wefan Gyrfa Cymru

Coleg Menai – ceisiadau i'w hanfon.

DYDDIADAU PWYSIG

- Noson Rieni 2/2/16
- Diwedd Tymor 24/3/16

Croeso!

Croeso i rifyn cyntaf Bwletin y 6ed. Mae ein Chweched dosbarth yn hynod o brysur bob amser, a'n dymuniad ni yw rhannu peth o'r prysurdeb hwn â chi. Mae'r nifer sylweddol o ddisgyblion sydd yn manteisio ar bob cyfle a ddaw i'w rhan yn galonogol dros ben ac yn achos dathlu.

Y PRIF DDISGYBLION A'R UWCHSWYDDOGION

Sean Clapham a Ffion Elin Davies yw ein Prif Ddisgyblion eleni, ac mae tim da yn eu cefnogi – Carys Thronton, Siwan Powell Jones, James Rogers Jones a Zoe Hinchcliff.

YMWELIADAU

Mae ein disgyblion ni wedi bod ar amrywiol deithiau yn ystod y tymor ym Manceinion, Caerdydd, Prifysgol Bangor, Lerpwl, Paris a Glanllyn.

Hefyd rydym ni wedi croesawi ymwelwyr atom o Lysgenhadaeth UDA, Prifysgol Glyndwr, Y Coleg Cymraeg a Chyngor Sir Ynys Môn.

PROSIECTAU

Mae hi bob amser yn braf cael cymryd rhan mewn amrywiol brosiectau, a'r tymor diwethaf buom yn brysur yn cyfrannu eto at brosiectau cenedlaethol

Cymru dros Heddwch

Cynhadledd Dyfodol Plentyn yng Nghymru

Ffug Gynhaldedd yr UE

LLYSGENHADON

Braf cael nodi bod nifer fawr o lysgenhadon gennym yma o fewn y Chweched. Mae bod yn llysgennad yn gyfle gwych i hybu mudiadau ac i wneud ffrindiau newydd.

Llysgenhadon Chwaraeon Platinwm ac Aur – Mollie Davies, Cerys Davies, Glesni Tegid, Manon Stonehewer, James Rogers Jones.

Llysgenhadon Oxfam – Rhia Danis, Rosia Shambrook, Ashley Thornton, Laura O'Hanlon Elms, Ceri Hamilton.

Llysgennad Uk/German Connections – Eryn Evans

Llysgennad Yr Urdd – Shôn Alun Thomas

Bwletin Rhieni Chweched YDH

Bl.12

BYDD GWERSI YN AILDDECHRAU AR 13/06/16 AR ÔL YR ARHOLIADAU A BYDDANT YN PARHAU TAN YR WYTHNOS PROFIAD GWAITH. DISGWYLIR 100% PRESENOLDEB

Apêl

Mae gennym silff lyfrau ar gyfer y llyfrau y dylai pawb eu darllen. Ond, mae hi'n wag! Tybed oes gennych chi lyfr y gallech ei gyfrannu at ein silff?

Cofiwch ein bod yn trydar!
Mae llawer o wybodaeth gyfredol a lluniau difyr i'w cael yno.

@DavidHughes6ed

BETH NESA?

Mae dros 70 o flwyddyn 13 wedi gwneud ceisiadau i fynd ymlaen i addysg prifysgol, ac mae cyfnod cyffrous nawr o'u blaenau tra'n aros am gynigion neu fynychu cyfweliadau.

Mae eraill yn dechrau chwilio am brentisiaethau neu waith neu am fynd ymlaen i Goleg Menai. Cofiwch ofyn am help pan fo'i angen! Pob lwc i chi i gyd!

CODI ARIAN

Mae criwiau hynod o ddiwyd wedi bod wrthi yn ystod y tymor yn codi arian ar gyfer amrywiol elusennau. Mae'r pobwyr wedi bod yn llwyddiannus dros ben, ac mae'r staff yn ogystal â'r disgyblion yn edrych ymlaen at y stondin gacennau bob tro.

Mae Macmillan, Ty Gobaith, Age Concern ac Oxfam wedi elwa o'u hymdrechion ac rydym yn edrych ymlaen at y bore coffi nesaf!

MENTER

Mae'n siwr i nifer ohonoch fod yn y Ffair Bysgod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr ar y Cei yn Borth. Prosiect ar y cyd â Menter Môn a Rhaglen Tudur Owen ydoedd a bu i Mrs Bracegirdle a chriw bach brwdfrydig weithio'n galed i sicrhau llwyddiant y diwrnod. Da iawn chi!

Cofiwch wylio – rhaglen ar S4C ym mis Chwefror!

LLWYDDIANNAU

Bu i Ffion Elin Davies gael ei dewis fel aelod o gast llwyddiannus iawn Les Miserables yng Nghaerdydd.

Mae Ryan Wood yn sgwad tim peldroed Cymru dan 18 oed.

Cyfranogiad i'r ysgol

Mae criw brwdfrydig o fl 13 yn mentora disgyblion bl 7 yn wythnosol.

Sefydlwyd Clwb Gwrth Fwlio gan ddisgyblion bl 13.

Trefnwyd Clwb Gwyddoniaeth gan fl.12

Mae disgyblion eraill yn cynorthwyo gyda dyletswydd amser egwyl a chinio o amgylch yr ysgol.

Trefnwyd gig ar gyfer disgbyblion bl.7 gan rai o'r 6ed gyda Cordia, Madarch a Candelas yn perfformio.

Braf yw cael cymaint o help!

CYNNIG
Gall disgyblion aros yn y Ganolfan tan 4.30pm ar ddydd Mawrth i weithio.